**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Michelle Morris
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

13 Mai 2024

Annwyl Michelle

Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Diolch am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 9 Mai 2024, sef ar gyfer sesiwn gyhoeddus gyntaf ein hadolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn nodi eich bod wedi penodi Dr Melissa McCullough fel arweinydd yr adolygiad annibynnol o'r dull o ymdrin â Chwynion o ran Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac edrychwn ymlaen at gael y cylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer yr adolygiad hwnnw yn fuan.

Bwriad y Pwyllgor yw aros nes bydd adroddiad yr adolygiad annibynnol ar gael cyn ystyried y canfyddiadau a chlywed rhagor o dystiolaeth, os bydd angen. Byddwn felly'n gwerthfawrogi cael diweddariad cyn toriad yr haf ar gynnydd yr adolygiad a'r amserlen debygol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.